PWYLLGOR PENODI - CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL ADNODDAU

DYDD GWENER, 2 TACHWEDD 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Huw Thomas(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Mackie, Robson a/ac Weaver |

33 : YMDDIHEURIADAU

Nid oedd ymddiheuriadau i'r cyfarfod hwn.

34 : DATGAN BUDDIANNAU

Doedd dim datganiad o fudd ar gyfer y cyfarfod hwn.

35 : CYLCH GORCHWYL

Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod o ran penodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Prif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor.

36 : COFNODION

Cafodd cofnodion y Pwyllgor Penodi ar 29 Hydref 2018 eu cymeradwyo a'u llofnodi yn gofnod cywir.

37 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD – Y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth am yr eitem fusnes ganlynol ar y sail y datgelid gwybodaeth a eithrir, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod, i'r aelodau'r cyhoedd petaent yn bresennol yn ystod y drafodaeth:

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r awdurdod; a

Paragraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy oedd yr unigolyn.

38 : PENODI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL ADNODDAU A SWYDDOG ADRAN 151

Cynullwyd y Pwyllgor i gyfweld â'r ddau ymgeisydd ar y rhestr fer a gyflwynwyd gan y Pwyllgor ar 29 Hydref 2018 ar ôl ystyried y canlyniadau o'r Ganolfan Asesu.

Fel rhan o'r broses gyfweld, rhoddodd pob ymgeisydd gyflwyniad 10 munud a rhoddwyd cyfle i aelodau archwilio cynnwys y cyflwyniad a gofyn cwestiynau amdano.  Dilynwyd hyn gan gwestiynau gosod ffurfiol a dau gwestiwn gorfodol.

Ar ddiwedd y broses gyfweld, trafododd y pwyllgor berfformiad pob ymgeisydd yn erbyn y cymwyseddau a'r ymatebion enghreifftiol.

Cytunodd y Pwyllgor fod modd penodi i swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.

PENDERFYNWYD –

1. Penodi Christopher Lee fel y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ar y cyflog blynyddol sy'n gysylltiedig â'r swydd a chytuno ar y dyddiad dechrau gyda'r ymgeisydd yn unol â'r cyfnod ymddiswyddo ac wedi i'r Cyngor gwblhau'r broses benodi.

2. Penodi Christopher Lee i rôl statudol Swyddog Adran 151 gydag effaith o dyddiad dechrau'r gyflogaeth i gael ei gytuno;

3. Bod y broses ddethol wedi'i chynnal yn unol â'r broses benodi a chafodd pob ymgeisydd ei drin yn gyfartal ac yn deg; Penodwyd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ôl ei haeddiant.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.40 pm